

1.Seren yn y crud

1.Ar ganol nos ym Methlehem
Ar noson ddigon oer
Ni wyddai neb wrth grwydro'r stryd
O'r wyrth dan olau'r lloer
Ond yn y stabl bychan llwm
Roedd dau a wyddai'n iawn
Bod gwyrth y geni yn nesau
A'r cariad oedd yn llawn

CYTGAN-

Babi bach a anwyd i'r byd
Yn rhodd i dynnu'r holl fyd ynghyd
Yng nghanol twyllwch bywyd
Fe ddaeth goleuni hyfryd
Efe yw'r seren yn y crud.

2.Ac ar y bryniau serth gerllaw
Yn gwylio'u praid liw nos
Bugeiliaid oedd yn dawel bach
Yn gwylio'r seren dlos
A'r seren honno aeth a nhw
A'r tri gwr doeth i'r dref
A rhodd o aur a thus a myr
I Iesu - Brenin Nef
CYTGAN

Efe yw'r seren ddaeth i'r byd
Yn fabi bychan tlawd
Ein gobaith yw am fywyd gwell
Ein cyfaill yw a'n brawd

CYTGAN

2.Hei Nadolig

Ding dong
Daw Sion Corn gyda llond ei sach
Cofiwn fabi bach
Hei Nadolig
Ding dong
Daw Sion Corn gyda llond ei sach
Cofiwn fabi bach *Cofiwn fabi bach*

Diolch eto am Iesu a wnawn
Diolch eto am fywyd mor llawn

Dathlu dathlu a phawb ynghyd
Dathlu dathlu yn llon ein byd

Cofiwn ninnau ei neges mor fawr
Cofiwn ninnau ei fywyd yn awr
Clychau Dolig yn llenwi'r tir
Clychau Dolig yn canu'n glir

3.Nadolig Llawen

Nadolig Llawen yw'r gri ar draws y tir,
mae gwen ar wyneb bob un
Mae'r byd yn llawn o hud, wow, wow , wow, wow
Nadolig llawen mae'r neges yn un glir
Heddwch i bob un Nadolig llawen i chi gyd.

Clychau yn canu a phob un yn rhannu'r
Nadolig unwaith eto
hedd drwy'r byd a phawb ynghyd
ewyllys da ein huno
cydio'n fy llaw yfory a ddaw
Nadolig unwaith eto
o dewch bawb i ymuno

Tinsel, anrhegion, mins peis a siocledi
Carolau llon i'n llonni
Stabal llwm i Faban Mair
O'r duwch daw goleuni.
cydio'n fy llaw yfory a ddaw
Nadolig unwaith eto
o dewch bawb i ymuno

4.Pawb: Eira'n disgyn:

Eira'n disgyn ond di'r dolig ddim yr un
Clychau'n galw galw'n ofer bob yn un
Does neb yn gwrando arnynt mwy
Na'n moli baban Mair
Collwyd swyn y dyddiau gynt
Nadolig mwy sy'n ffair

Rhaid yw dod ag ef yn ol
Nadolig fel y bu
Ymunwch chi dowch gyda ni
Dyrchafwn Iesu cu.

Eira'n disgyn disgyn ar y sgrin TV

Grwpiau pop aflafar swnllyd glywn ni
A phawb yn gwledda yfed mwy
Yn llawn o sen a sbri
Santa Clos gymerodd le
Ein baban bychan ni

5. Peth braf yw breuddwydio

Cytgan

Peth braf yw breuddwydio

Cau llygaid yn dynn

Dychmygu fy mywyd

Ymhell o'r fan hyn.

Rhywdro yn rhywle

Ni wn i pa bryd

Mi welaf fy hunan

Yn hapus fy myd.

R'un daten i'w phlicio

R'un sosban i'w lanhau

R'un siwmpwr i'w wnïo

A byth yn cael y bai.

Cytgan

Mae bywyd mor unig

A'r ty ma'n waeth na chell

Cael dianc o dlodi

Dyheu am fywyd gwell

Cael syrthio mewn cariad

A chwmni llon bob dydd

Atgofion mor hapus

A bywyd - o mor rhydd

6. Ydyn nhw'n anghofio?

Tybed ydyn nhw'n anghofio pa Frenin ydi hwn. x 2

1. A welsoch chi'r holl redeg nôl a 'mlaen?

Ma'r ddwy hen chwaer yn nyts, ma hynny'n blaen.

Wrth chwilio am y ffrogia crandia'

Rhedeg am y persawr dryta' O!

Tybed ydyn nhw'n anghofio pa Frenin ydi hwn. x 2

2. A glywsoch chi'r holl weiddi nerth eu pen

A sgrechian mawr fel tasai'r byd ar ben?

Wrth drïo colli pwysau'n handi,
Hynny cyn mynd draw i'r parti O!
Tybed ydyn nhw'n anghofio x 2 Pa Frenin ydi hwn. x 2

7.Can am Sal a Lw

Nhw yw y dela' ohonyn nhw'i gyd
Ma pawb isho'u sylw o hyd ac o hyd
Pob blewyn yn daclus, pob peth yn ei le
A phob un yn son am eu harddwch, ynte?

Pawb: Cytgan
Ciciwch eich sodle
Codwch eich gwydre
I Sal a Lw
I Sal a Lw
Sal-Lw!

2.
Chwilio am bishyn sy'n crwydro ei hun
Os na fydd na ddawns efo fo, fyddai'n flin!
A phishyn cyfoethog ac arian di-ri
Partner bach handi i fi ac i ti!

8.Can y defaid

Y ni yw defaid y mynydd
Y ni yw defaid y mynydd
Yn pori'r caeau hyfryd
Yn pori'r caeau hyfryd
Me me me me me me
Me me me me me me
Y ni yw defaid y mynydd

Bugeiliaid sy'n gofalu
Bugeiliaid sy'n gofalu
Eu bod nhw o mor hapus
Eu bod nhw o mor hapus
Me me me me me me
Me me me me me me
Bugeiliaid sy'n gofalu

Angylion oedd a'u golau

Angylion oedd a'u golau
Yn son am eni baban
Yn son am eni baban
Me me me me me me
Me me me me me me
Angylion oedd a'u golau

Mae'n amser mynd i'r parti
Mae'n amser mynd i'r parti
I ddathlu'r brenin newydd
I ddathlu'r brenin newydd
Me me me me me me
Me me me me me me
Mae'n amser mynd i'r parti

9.Can y cneifio – dosbarth oren

Defaid aeddfed ydan ni
Yn ein cotiau cynnes cu
Pan ddaw hi yn fis Mehefin
Bydd yn rhaid ein cneifio wedyn

O mor glyd yr ydan ni
O mor glyd yr ydan ni
Mae hi'n haf bob dydd o'r flwyddyn
Yn ein hyfryd hyfryd gnu

Ffermwyr ifanc ydan ni
Da ni'n mynd i'ch cneifio chi
Er nad ydi ond mis Ionawr
Bydd pob cot o wlan yn gonnar

Da ni'n ffermwyr ifanc cry
Snip snip snip ein gwalla ni
Clipio'n slic drwy'ch cotiau chi
Snip snip snip i ffwrdd a'r cnu

Defaid
O mor oer yr ydan ni
O mor oer yr ydan ni
Dani yma'n oer - yn fferu
Heb ein hyfryd hyfryd gnu.

Pawb:
O mor oer yr ydyn nhw

O mor oer yr ydyn nhw
Ma nhw yma'n oer - yn fferu
Heb eu hyfryd hyfryd gnu.

Can Herod

Y fo di'r dyn y fo di'r dyn
Fo di Herod mae o'n flin Aaaaaa
Yn ein cosbi ni yn ein cosbi ni
Fo di Herod mae o'n flin Aaaaaa
Yli yli yli yyy Herod ydi o Aaaaaa
Yli yli yli yyy Herod ydi o Aaaaaa

Y brenin cas y brenin cas
Mae'n ein dychryn ni bob dydd
Y goron fawr sydd ar ei ben
Mae'n ein dychryn ni bob dydd
Yli yli yli yyy Herod ydi o Aaaaaa
Yli yli yli yyy Herod ydi o Aaaaaa

2023 – dim un o’r isod

Pawb: Match of the day

Fe ddaeth angel lawr o’r nefoedd
At wely’r forwyn Fair
I ddweud am eni’r baban
Meseia oedd y gair

Haleliwia haleliwia, Yr Arglwydd yw Efe
Haleliwia Haleliwia, Crist yr Arglwydd ddaeth o’r Nef

Fe ddaeth gair i Mair a Joseff
I fynd i Fethlehem
I dalu treth i Cesar
A’u cyfri’n ol y drefn

Fe fu chwilio mawr am lety
Doedd yno run i’w gael
A gorfu iddynt aros
Mewn stabal lom a gwael

Bugeiliaid oedd ym Methlem
Yn gwyllo’u praid liw nos
Pan glywsant am y geni
Yng ngwlad Jiwdea dlos

Daeth doethion a’u trysorau
O thus a myrr ac aur
Cyflwyno’r rhain a wnaethant
I annwyl faban Mair

Can y gwr doeth: Glywsoch Chi’r Sôn?

1.
Glywsoch chi’r sôn? Mae ‘na rai sibrydion
Fod ‘na Frenin newydd ar Ei ffordd i’r byd
Does dim fath beth awn yn ôl am adre?
Pwy sy’n ddigon twp i gredu breuddwyd hud?

Cytgan
Hen daith anniddorol
Dw i’n llwyr anobeithiol
Mae’r daith yn faith a’r siwrne’n hir
Mae nghefn bron â hollti
Ar gamel mawr ‘wonci’
A’n hunig obaith yw seren glir.

2.

Ond beth yw hyn? Mae 'na rywbeth rhyfedd
Fel pe bai'n dod drosom ar ol amau'n fawr.
Hwn yw y Crist - Hwn yw'n Brenin ni
Ef ddaw i'n gwaredu, Ef yw'n toriad gwawr

Pawb: Yr Hen Hen Stori

Cytgan
Hen, hen stori yw hon
Hen, hen stori yw hon
Dewch gyda ni i ddathlu'r stori
Dathlu'r stori am eni'r Iesu
Brenin Nef.

Wyt ti'n cofio stori Sinderela?
Ydy - mae hi'n hen
Ond nid yw stori Sinderela
R'un mor hen â hon
Cytgan

Wyt ti'n cofio stori geni'r Iesu?
Ydy - mae hi'n hen
Y baban bach ym Methlem Jiwda
Y stabal llwm yn llawn.
Cytgan

Cofiwn ddweud y stori bob Nadolig
Er ei bod hi'n hen.
A chario'r neges yn ein calon
A'i rhoi o law i law
Cytgan

Deffra

Deffra deffra deffra dos i hel dy lyfra
amser mynd i'r ysgol
stretsia, neidia, galw mae dy ffrindia
mae diwrnod newydd o'n blaen

wyt ti'n ffit? dawnsia gyda'r bit,
amser mynd i'r ysgol
gwaedda nawr hei, gwelai di'n y man
mae diwrnod newydd o'n blaen.

Deffra deffra deffra dos i hel dy lyfra

amser mynd i'r ysgol
stretsia, neidia, galw mae dy ffrindia
mae diwrnod newydd o'n blaen

Cadw'n iach dyna wnawn bob dydd
Yma'n Ysgol Henblas
Diolch wnawn – hei diolch am bob dim
mae diwrnod newydd o'n blaen.

Deffra deffra deffra dos i hel dy lyfra
amser mynd i'r ysgol
stretsia, neidia, galw mae dy ffrindia
mae diwrnod newydd o'n blaen

Pawb:Sinderela

1.
Mae'r Nadolig o mor agos a'r celyn dros y lle,
A ninnau y cantorion yn canu dros y dre'.
Mae ty'r hen Sinderela yn lân o'r top i'r llawr
Y hi sy'n gorfod gweithio a llau o awr i awr.
Cytgan

Yng nghartre Sinderela
y hi 'di'r pishyn dela,
ond mae'n gorfod mynd a mynd am oriau maith,
mae'r ddwy hen chwaer mor greulon
a'i llysfam byth yn fodlon
er ei bod o hyd yn brysur wrth ei gwaith, wrth ei gwaith.

2.
Mae'r ddwy hen chwaer yn salw, a wastad yn llawn ffys,
Yn drewi fel cabajen, yn fwy o faint na 'bys',
Yn gweiddi ar hen Sindera i nôl yr hwn a'r llall,
Y ddwy fel clowns mewn syrca, y ddwy ddim chwarter call.
Cytgan

3.
Os dowch chi yn agosach, cewch glywed gynnon ni
Am stori Sinderela, mae'n antur wir i chi.
Os y'ch chi'n dechrau meddwl eich bod di clywed hon,
Mae wir yn hen, hen hanes, ond fersiwn newydd sbon...
Cytgan

